OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 1999 Rhif 3084 (Cy.35)

# TAI, CYMRU

## Rheoliadau Cymorth Trwsio Cartref (Estyn)(Cymru) 1999

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *16 Tachwedd 1999* |
| *Yn dod i rym* | - - | *17 Tachwedd 1999* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 79 (2) a (3) o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996(**1**), a freiniwyd ynddo bellach(**2**), a phob pŵer arall sy'n ei alluogi yn y cyswllt hwnnw:

**Enwi, cychwyn a hyd a lled**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cymorth Trwsio Cartref (Estyn) (Cymru) 1999 a deuant i rym ar 17 Tachwedd 1999.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn ymestyn dros Gymru'n unig.

**Estyn cymorth trwsio cartref**

**2.** Estynnir argaeledd cymorth trwsio cartref drwy drin lwfans ceisio gwaith ar sail incwm(**3**) fel un o'r budd-daliadau a restrir yn is-adran (1)(e) o adran 77 (bod â hawl i gymorth trwsio cartref) o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998

*Dafydd Elis Thomas*
Llywydd Y Cynulliad Cenedlaethol

16 Tachwedd 1999

(**1**) 1996 p.53.
(**2**) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
(**3**) *Gweler* adran 1(4) o Ddeddf Ceisio Gwaith 1995 (p.18).

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

O dan Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996, caiff awdurdod tai lleol gynnig cymorth trwsio cartref ar ffurf naill ai grant neu ddeunydd ar gyfer gwneud gwaith trwsio, gwella neu addasu annedd.

Er mwyn bod â hawl i gymorth trwsio cartref rhaid i awdurdod tai lleol gael ei fodloni fod yr amodau a nodir yn adran 77(1) o'r Ddeddf yn gymwys. Mae'r rhain yn cynnwys yr amod bod y ceisydd neu bartner y ceisydd yn cael budd-dâl a restrir yn is-adran (1) (e).

Mae'r Rheoliadau hyn yn caniatáu i lwfans ceisio gwaith ar sail incwm gael ei drin fel budd-dâl o fewn yr is-adran honno.

Mae'r Rheoliadau hyn yn ymestyn dros Gymru'n unig.